Cyllid & Thollau EM

# Bwletin y Cyflogwr

Eich llwybr i'r newyddion diweddaraf ynghylch y gyflogres

Rhagfyr 2014 Rhifyn 51

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

## Croeso

Helo a chroeso i rifyn mis Rhagfyr o Fwletin y Cyflogwr.

Cyflwynwyd Datganiad yr Hydref gerbron y Senedd gan y Canghellor ar 3 Rhagfyr. Mae crynodeb o'r newidiadau allai effeithio ar eich prosesau cyflogres ar dudalen 2. Mae'r erthygl ar dudalen 3 yn sôn wrthych am broblemau sy'n gysylltiedig â chyflwyno gwybodaeth TWE mewn amser real ac yn cynnig peth gwybodaeth ddefnyddiol i chi ynglŷn â'r modd y gallwch osgoi derbyn cosbau heb fod angen. Mae'n rhoi gwybod i chi hefyd sut y gallwch, bellach, gyflwyno apêl ar-lein gan ddefnyddio'r Gwasanaeth Cosbau ac Apeliadau (PAS), os byddwch mewn sefyllfa sy'n gofyn i chi dalu cosb a'ch bod yn anghytuno â hynny.

Mae CThEM bellach wedi dirwyn pob rhif llinell gymorth sy'n dechrau â 0845 i ben a gofynnir i unrhyw gwsmer sy'n ffonio'r rhifau hynny i ddeialu eto gan ddefnyddio'r rhif cywir. Os oes angen cysylltu â CThEM arnoch, gwiriwch eich bod yn defnyddio'r rhif cywir ar gyfer cysylltu cyn eich bod yn galw.

Gobeithiwn y teimlwch fod yr eitemau yn y rhifyn hwn o gymorth ac yn addysgiadol. I sicrhau nad ydych yn methu unrhyw newyddion yn y dyfodol, fe'ch anogaf i ymrestru ar gyfer derbyn ein e-byst hysbysu rhad ac am ddim. Mae gwneud hynny'n golygu y byddwn yn gallu anfon e-bost atoch bob tro i rifyn newydd o'r Bwletin gael ei gyhoeddi. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau hefyd yn cynhyrchu taflen newyddion ar gyfer cyflogwyr yn gyson. Mae'n bosib y dymunwch ymrestru ar gyfer ei derbyn.

Ac yn olaf, anelwn at drosglwyddo gwybodaeth glir, gyson ac amserol sy'n addas i gyflogwyr ac sy'n eu cynorthwyo i fodloni eu rhwymedigaethau cyflogres i CThEM. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau, felly, ynglŷn â chynnwys Bwletin y Cyflogwr, neu os hoffech iddo ymdrîn â phwnc penodol, ysgrifennwch ataf yn Alison.bainbridge@hmrc.gsi.gov.uk. Byddwn yn ddiolchgar iawn i gael eich adborth.

Alison

Alison Bainbridge
Golygydd

**Cynnwys**

2 Datganiad yr Hydref gan y Canghellor
3 Cefnogi busnesau bach: gwneud treth yn haws, yn gyflymach ac yn symlach
4 RTI: cosbau am gyflwyno'n hwyr ac apeliadau
6 A ydych yn talu CThEM yn gywir ac mewn pryd?
6 Lwfans Cyflogaeth Yswiriant Gwladol – a ydych wedi hawlio eich un chi eto?
7 Lwfansau trosglwyddadwy ar gyfer cyplau priod a phartneriaid sifil
7 Newidiadau i god treth cyflogai – cynyddu'r uchafswm y gellir ei adennill
8 Dod â Chontractio Allan i ben
8 Cyflogi rhywun newydd?
9 Cofrestru awtomatig: Galw ar gyflogwyr i weithredu nawr
9 Offer TWE Sylfaenol
9 A fu unrhyw newid i amgylchiadau eich cynllun TWE?
10 Gwelliannau i wasanaeth CThEM ar gyfer cwsmeriaid mewn profedigaeth
10 Anrhegion Nadolig i Gyflogeion
10 Pensiwn newydd y Wladwriaeth
11 Rheolau newydd a gofynion newydd ynghylch hysbysu os ydych yn cyflenwi unigolion i ddarparu eu gwasanaethau i rywun arall
11 Gwasanaeth ar-lein Gwarantau Ar Sail Cyflogaeth (ERS)
12 Absenoldeb a Thâl Rhieni Ar y Cyd
13 Faniau ag allyriadau sero – Nodyn atgoffa
14 Ceir cwmni
14 IR35 – Profion Endidau Busnes
15 Gwariant Perthnasol ar Foduro a chyfandaliadau – Diweddariad
16 Sut mae Credyd Cynhwysol yn gweithio gyda gweithredu RTI mewn amser real
17 Rhifau ffôn a allai fod o gymorth

# Datganiad yr Hydref gan y Canghellor

Traddodwyd Datganiad yr Hydref gan y Canghellor ar 3 Rhagfyr 2014. Mae trosolwg yn crynhoi'r prif newidiadau sy'n effeithio ar CThEM ac mae'r erthygl hon yn rhoi crynodeb byr o'r newidiadau hynny allai effeithio ar eich rhwymedigaethau cyflogres.

## Lwfansau Treth Incwm

Cyhoeddwyd bydd y lwfans personol sylfaenol ar gyfer y flwyddyn dreth sy'n dechrau ar 6 Ebrill 2015 yn cael ei gynyddu i £10,600. Y cod treth dros dro fydd 1060L.

O ganlyniad, bydd ymgodiad cyffredinol o godau treth ag ôl-ddodiad 'L' fydd yn cael ei gynyddu gan 60. Bydd CThEM hefyd yn anfon codau treth unigol ar gyfer y flwyddyn dreth sy'n dechrau 6 Ebrill 2015 ar gyfer rhai cyflogeion a dylai cyflogwyr eu derbyn erbyn diwedd mis Mawrth 2015. Mae cyfarwyddiadau llawn ynglŷn â'r hyn i'w wneud ar gyfer cyflogeion sydd â chod treth yn ogystal â'r sawl sydd heb, i'w cael ar ffurflen P9X. Caiff y cysylltiad hwn ei ddiweddaru ym mis Chwefror i ddangos ffurflen P9X(2015).

## Haenau a chyfraddau Treth Incwm

Dangosir y cyfraddau treth incwm a'r ystodau band treth incwm ar gyfer y flwyddyn dreth sy'n dechrau ar 6 Ebrill 2015 isod:

| Cyfradd | % | Ystod band |
|---|---|---|
| Cyfradd Sylfaenol | 20% | £1 i £31,785 |
| Cyfradd Uwch | 40% | £31,786 i £150,000 |
| Cyfradd Ychwanegol | 45% | £150,001 ac uwch |

## Terfynau enillion a throthwyon Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG)

Cadarnhaodd y cyhoeddiadau y terfynau a'r trothwyon Yswiriant Gwladol (YG) canlynol ar gyfer y flwyddyn dreth sy'n dechrau ar 6 Ebrill 2015

- bydd cyfradd ychwanegol CYG Dosbarth 1 cynradd yn parhau heb ei newid ar 12%
- bydd cyfradd eilaidd CYG Dosbarth 1 yn parhau heb ei newid ar 13.8% Mae'r gyfradd hon hefyd yn gymwys ar gyfer CYG Dosbarth 1A a Dosbarth 1B
- bydd cyfradd ychwanegol CYG Dosbarth 1 cynradd yn parhau heb ei newid ar 2%
- £112 yr wythnos fydd y Terfyn Enillion Isaf
- £155 yr wythnos fydd y Trothwy Cynradd (ar gyfer cyflogeion)
- £156 yr wythnos fydd y Trothwy Eilaidd (ar gyfer cyflogwyr)
- ni fydd newid i'r Pwynt Croniad Uchaf, sef £770 yr wythnos
- bydd y Terfyn Enillion Uchaf (TEU) yn newid i £815 yr wythnos
- £815 yr wythnos fydd y Trothwy Eilaidd Uwch newydd (ar gyfer cyflogwyr)*

*Cyflwynwyd hyn er mwyn hwyluso'r broses o ddiddymu CYG y cyflogwr ar gyfer cyflogeion o dan 21 oed o 6 Ebrill 2015, pan na fydd yn ofynnol mwyach ar gyflogwyr i dalu CYG Dosbarth 1 Eilaidd ar enillion a dalwyd hyd at y Trothwy Eilaidd Uwch i unrhyw gyflogai o dan 21 oed.

Bydd y canrannau ad-daliad contractio allan ar gyfer Cynlluniau sy'n Gysylltiedig â Chyflog, sydd wedi'u Contractio Allan (COSR), yn parhau heb eu newid, sef 3.4 % ar gyfer cyflogwyr ac 1.4% ar gyfer cyflogeion.

## Cyhoeddiadau eraill

**Lwfans Cyflogaeth Yswiriant Gwladol**

Gall unigolion sy'n cyflogi mathau penodol o ofalwyr hawlio'r Lwfans Cyflogaeth CYG o fis Ebrill 2015 ymlaen. O ganlyniad, byddant yn gallu gostwng eu bil CYG gan hyd at £2,000 y flwyddyn. Mae gwybodaeth bellach i'w chael yma. (Sylwer: Mae Lwfans Cyflogaeth yn cael ei ymestyn i ofalwyr penodol yn unig – e.e. dim nanis.)

## Diddymu CYG y cyflogwr ar gyfer prentisiaid o dan 25 oed

O 6 Ebrill 2016 ymlaen ni fydd yn ofynnol mwyach ar gyflogwyr i dalu CYG Dosbarth 1 eilaidd ar enillion a delir hyd at y TEU i brentisiaid o dan 25 oed. Caiff diffiniad penodol o 'brentis' ei roi ar ddyddiad hwyrach yn dilyn trafodaethau â rhanddeiliaid allweddol. Mae gwybodaeth bellach i'w chael yma.

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

### Newidiadau eraill ar gyfer y flwyddyn dreth 2015 i 2016 a gyhoeddwyd yng Nghyllideb 2014

**Codiant buddiant tanwydd**

O 6 Ebrill 2015 ymlaen, bydd y lluosydd buddiant tanwydd ceir, a ddefnyddir i gyfrifo'r dreth sy'n daladwy ar y buddiant o danwydd rhad ac am ddim ar gyfer ceir cwmni, yn cynyddu o £21,700 i £22,100.

**Buddiant faniau a thanwydd faniau**

O 6 Ebrill 2015 ymlaen, cynyddir y buddiant fan o £3,090 i £3,150 ar gyfer 2015 i 2016 a bydd y tâl buddiant tanwydd fan yn cynyddu o £581 i £594.

### Buddiannau

**Trothwy £8500**

O 6 Ebrill 2016, diddymir y trothwy £8,500 sy'n pennu a yw cyflogeion yn talu treth incwm ar eu holl fuddiannau. Mae gwybodaeth bellach ar gael: *Abolishing the £8,500 threshold for benefits in kind*.

**Eithriad Statudol ar gyfer buddiannau pitw**

O fis Ebrill 2015, cyflwynir eithriad statudol er mwyn caniatáu cyflogwyr i adnabod a thrin buddiannau penodol o werth isel a roddir i'w cyflogeion fel bod yn rhai 'pitw'. Mae gwybodaeth bellach ar gael: *Statutory exemption for trivial benefits in kind*.

**Goddefebau**

O fis Ebrill 2016, diddymir y gofyn i gyflogwr wneud cais i CThEM am oddefeb ar gyfer treuliau a buddianau y gellir eu didynnu, a delir neu ad-delir. Effaith hyn fydd na fydd gofyn mwyach ar gyflogwyr i hysbysu, a bydd cyflogwyr yn derbyn y rhyddhad treth sydd ganddynt yr hawl iddo, yn awtomatig. Mae gwybodaeth bellach ar gael: *Exemption for qualifying expenses payments*.

**Talu buddiannau drwy'r gyflogres**

O fis Ebrill 2016, cyflwynir fframwaith statudol er mwyn cynnal talu buddiannau drwy'r gyflogres yn wirfoddol. Bydd hwn ar gael ar gyfer pob cyflogwr, o ddechrau'r flwyddyn dreth 2016-17. Mae gwybodaeth bellach ar gael: *Introducing a statutory framework for voluntary payrolling*.

# Cefnogi busnesau bach: gwneud treth yn haws, yn gyflymach ac yn symlach

Mae CThEM am iddi fod mor syml â phosib i ddelio â threth, gan roi fwy o hyder a sicrwydd i fusnesau bach.

Yn 2012, gwnaethom gyhoeddi ymrwymiadau i wneud treth yn haws i'w deall a 'gwneud treth' yn broses gyflymach a symlach.

Rydym wedi diweddaru ein cyhoeddiad rhyngweithiol ar-lein sy'n arddangos y gwelliannau a'r cynnyrch a'r gwasanaethau newydd a gwell, a ddatblygwyd gan CThEM. Mae'n cynnwys cysylltiadau uniongyrchol i'r gwasanaethau a'r cynnyrch hynny, gan helpu busnesau bach i gael eu treth yn gywir, y tro cyntaf.

Rydym wedi strwythuro'r ddogfen ar sail nifer o themâu, fel y gall busnesau fwrw golwg yn ôl y gofyn ar yr adrannau hynny sy'n eu diddori'n bennaf, gan gynnwys:

- darparu gwasanaethau digidol newydd a gwell: er enghraifft, ein gwasanaeth digidol newydd blaenllaw, *Your Tax Account*, sy'n galluogi busnesau i reoli eu gwasanaethau drwy gyfrwng hafan wedi'i phersonoli.
- rhoi gwell help, cymorth ac arweiniad: gwybodaeth ynglŷn â'r hyn sydd ar gael i fusnesau bach, megis seminarau byw, apps ffonau symudol a chymorth gyda thalu.
- cefnogi busnesau i dyfu: gwybodaeth ynglŷn â'r Lwfans Cyflogaeth newydd, sef £2,000, yn ogystal â rhyddhad a chymhelliannau treth eraill, a
- moderneiddio ein prosesau a'n gwasanaethau: sut rydym yn trawsnewid ein gwasanaethau er mwyn iddynt fod yn symlach.

Yn ogystal, rydym wedi disgrifio'r modd rydym yn gwrando ar, ac yn dysgu wrth, fusnesau bach er mwyn helpu i lunio ein gwasanaethau a sut byddwn yn parhau i wella.

Gobeithiwn y bydd busnesau bach yn teimlo bod y cyhoeddiad hwn yn ddefnyddiol, ac y byddant ar eu hennill, maes o law, wrth ddefnyddio'r cynnyrch a'r gwasanaethau sy'n cael eu harddangos.

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

# RTI: cosbau am gyflwyno'n hwyr ac apeliadau

Fel y gwnaethom esbonio yn rhifyn mis Hydref 2014 o Fwletin y Cyflogwr, gwnaeth cosbau am gyflwyno'n hwyr ddechrau ar 6 Hydref ar gyfer cyflogwyr â chynlluniau sy'n cynnwys 50 neu'n fwy o gyflogeion.

Bydd cyflogwyr y codwyd y cosbau hyn arnynt yn dechrau derbyn yr hysbysiadau o gosb chwarterol o ddechrau mis Chwefror 2015. Ni fydd copi o'r hysbysiad o gosb yn cael ei anfon at asiantau. Fodd bynnag, bydd yr hysbysiad yn cynnwys neges amlwg yn cyfarwyddo cyflogwyr sydd ag asiant yn gweithredu ar eu rhan, i ddangos yr hysbysiad iddo/iddi ar unwaith. Bydd yr hysbysiad ar ffurf llythyr papur a bydd yn amlinellu pob cosb am gyflwyno'n hwyr a godwyd ar gyfer chwarter 3 2014-15 (h.y. ar gyfer misoedd treth 7, 8 a 9 yn cwmpasu'r cyfnod 6 Hydref hyd at 5 Ionawr 2015). Gallai'r hysbysiad o gosb gynnwys mwy nag ond un gosb.

Bydd gan bob cosb ar yr hysbysiad Ddynodydd Unigryw (ID Unigryw) i helpu cyflogwyr i adnabod beth yw'r gosb os fyddant am apelio. Bydd yr hysbysiad o gosb yn esbonio ym mha fodd y mae'n bosib bydd yn rhaid i'r cyflogwr weithredu os yw'n anghytuno ac yn dymuno apelio.

Rydym am i gyflogwyr ddeall a chydymffurfio â'u cyfrifoldebau hysbysu yn hytrach na derbyn cosbau.

Rydym yn defnyddio ein gwasanaeth negeseuon electronig (a elwir weithiau yn 'wasanaeth hysbysu generig' neu 'negeseuon GNS') i roi gwybod i gyflogwyr yn syth pan fyddant, o bosib, yn wynebu derbyn cosb. Nid hysbysiadau o gosb yw'r negeseuon hyn ond anogwyr i helpu cyflogwyr i ddeall eu sefyllfa TWE gyfredol a'i diweddaru, os yw hynny'n angenrheidiol. Mae'n bwysig felly i wirio'r negeseuon hyn yn gyson.

Er mwyn osgoi derbyn cosbau yn ddianghenraid, dylai cyflogwyr wneud y canlynol:

- Hysbysu mewn pryd ynghylch TWE drwy anfon Cyflwyniad Taliadau Llawn (FPS) ar neu cyn y dyddiad talu cynharaf sy'n cael ei nodi arno.
- Sicrhau, os oes angen iddynt hysbysu ynghylch unrhyw daliadau'n hwyr ar FPS, eu bod yn rhoi'r rheswm i ni drwy hynny gan ddefnyddio'r codau rheswm am gyflwyno'n hwyr: Gweler yr adran 'Late reporting reason' yn yr arweiniad **'What payroll information to report to HMRC'**.
- Anfon Crynodeb o Daliadau'r Cyflogwr (EPS) gan nad ydynt yn talu unrhyw un yn ystod y mis treth. Yn ogystal, gall cyflogwyr ddefnyddio EPS i roi gwybod i ni ynghylch cyfnod o anweithgarwch ac na fyddant yn hysbysu am nifer o fisoedd.
- Sicrhau, os ydynt yn defnyddio darparwyr gwasanaethau cyflogres neu asiant i redeg eu cyflogres, eu bod yn derbyn gwybodaeth ynghylch y gyflogres mewn da bryd er mwyn bodloni'r dyddiadau cau ar gyfer hysbysu.
- Rhoi gwybod i ni os ydynt wedi newid y nifer o gyflogresi neu pa mor aml maent yn talu eu cyflogeion, er enghraifft, newid o fesul wythnos i fesul mis – mae'r manylion yn yr arweiniad *Running payroll: changing paydays*.
- Rhoi gwybod i ni yn syth os yw eu cynllun TWE wedi dod i ben nawr, ac nad ydynt bellach yn talu unrhyw un, gan ddefnyddio FPS neu EPS terfynol – gweler yr arweiniad *Stop being an employer* am fanylion ynghylch yr hyn sydd i'w wneud.
- Anfon FPS neu EPS o flaen llaw os ydynt yn gwybod na fyddant ar gael (er enghraifft, ar wyliau) pan fydd yn amser gwneud adroddiad.

### Apelio yn erbyn cosb ar-lein gan ddefnyddio'r Gwasanaeth Cosbau ac Apeliadau (PAS)

Gall cyflogwyr a'u cynrychiolwyr awdurdodedig ddefnyddio Gwasanaethau Ar-lein CThEM i gyflwyno apêl electronig yn erbyn cosbau am gyflwyno'n hwyr. Bydd PAS yn dangos y gosb ac yn galluogi cyflogwyr neu eu hasiantau i apelio ar-lein.

Defnyddio PAS ac apelio ar-lein yw'r ffordd gyflymaf o gyflwyno apêl a chael CThEM i'w phrosesu. Mae'n golygu y caiff cyflogwyr neu asiantau gydnabyddiaeth ar-lein ar unwaith. Rydym felly'n awgrymu bod cyflogwyr ac asiantau'n ymrestru ar gyfer derbyn e-byst atgoffa a hysbysiadau gan ddefnyddio opsiynau yn TWE Ar-lein, os nad ydynt eisoes wedi gwneud hynny.

Er mwyn cyflwyno apêl ar-lein, dylai cyflogwyr neu asiantau wneud y canlynol:

- Mynd i adran TWE Ar-lein y Gwasanaethau Ar-lein
- Dewis yr opsiwn i apelio yn erbyn cosb Daw asiantau o hyd i fanylion eu cleientiaid o dan yr opsiwn i ddewis eu cleientiaid cyfredol

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

- Bydd yr opsiwn i apelio yn erbyn cosb yn rhestru pob cosb y gellir apelio yn ei herbyn, gan ddangos y canlynol:
  - ID Unigryw
  - y math o gosb
  - dyddiad anfon fel y dangosir ar yr hysbysiad o gosb
  - dyddiad y daw'r cyfnod treth i ben
  - swm y gosb

  Bydd hefyd yn rhoi gwybod i chi os nad oes cosbau y gellir apelio yn eu herbyn, gan ddweud naill ai nad oes gennych gosbau y gellir apelio yn eu herbyn ar hyn o bryd, neu, os ydych yn asiant, nad oes gan eich cleient gosbau y gellir apelio yn eu herbyn ar hyn o bryd.
- Dewiswch yr ID Unigryw, fel y'i dangosir ar yr hysbysiad o gosb, ar gyfer y gosb rydych yn dymuno apelio yn ei herbyn.
- Dewiswch y rheswm dros apelio o'r ddewislen. Mae'n bosib y bydd hefyd yn ofynnol arnoch i ddarparu gwybodaeth ychwanegol, er enghraifft, anawsterau oherwydd iechyd drwg neu anawsterau Technoleg Gwybodaeth.
- Er mwyn i apêl lwyddo:
  - Mae'n rhaid ein bod wedi codi'r gosb o ganlyniad i ddeall y ffeithiau'n anghywir (e.e. gwnaed y cyflwyniad mewn pryd neu mae maint y cyflogwr yn anghywir); neu
  - mae'n rhaid bod seiliau rhesymol dros gyflwyno'n hwyr
- Bydd y sgrîn wedyn yn rhoi gwybod i chi am y canlynol:
  - eich bod wedi cyflwyno eich apêl yn llwyddiannus
  - eich darparu â chyfeirnod cydnabyddiaeth
  - i wirio eich negeseuon GNS, ar gyfer gwirio statws eich apêl.

Sylwer nad oes nodwedd argraffu yn y cyfleuster apelio ar-lein, felly mae'n bosib y byddwch am gymryd copi electronig o'r sgrin hon ar gyfer eich cofnodion.

- Byddwn wedyn yn ystyried eich apêl ac yn anfon un o ddwy neges GNS ar unwaith. Bydd y negeseuon hyn yn sôn:
  - 'Bod CThEM wedi cael yr apêl sydd wedi ei derbyn a'i setlo, mae'r gosb wedi ei diddymu a bydd hysbysiad diwygiedig o gosb yn cael ei anfon yn ei dro'. Bydd yr hysbysiad hwn yn diddymu'r gosb ac yn gostwng y gosb i ddim
  - 'Bod yr apêl wedi ei derbyn a'i chyfeirio ar gyfer ystyriaeth bellach'

Gellir apelio hefyd ar bapur a dylent gynnwys yr wybodaeth ganlynol, y gellir dod o hyd iddi ar yr hysbysiad o gosb:

- Cyfeirnod TWE y Cyflogwr
- ID Unigryw'r gosb
- Cyfnod Diofyn
- Rheswm dros apelio

Cofiwch mai dim ond ar-lein neu ar bapur y gellir cyflwyno apeliadau. Cânt eu hystyried yn union yr un ffordd, pa bynnag ddull o apelio byddwch yn ei ddefnyddio. Ni ellir cyflwyno apeliadau dros y ffôn.

### Gwybodaeth bellach

[Yr hyn sy'n digwydd os na fyddwch yn hysbysu gwybodaeth ynglŷn â'r gyflogres ar amser](#)

*[Running Payroll: sending an FPS after payday](#)*.

*[Disagree with a tax decision 3. Appeal against a penalty](#)*.

### Edrych ymlaen:

**1) Cosbau sy'n dechrau ym mis Mawrth a mis Ebrill 2015**

Bydd cosbau yn ystod y flwyddyn ar gyfer cynlluniau â 49 neu lai o gyflogeion yn cychwyn ar **6 Mawrth 2015**.

Bydd cosbau awtomatig yn ystod y flwyddyn am dalu'n hwyr yn cychwyn o **6 Ebrill 2015** ar gyfer **pob** cyflogwr.

Mae'r erthygl **A ydych yn talu CThEM yn gywir ac mewn pryd?** ar dudalen 5 yn cynnig cyngor ymarferol ynglŷn â'r modd y gall cyflogwyr baratoi ar gyfer 2015-16 gan osgoi camgymeriadau syml a derbyn cosbau (a llog) am dalu'n hwyr.

Peidiwch ag anghofio y byddwn yn codi llog ar unrhyw gosbau sy'n cael eu talu'n hwyr.

**2) Cyflwyno ar gyfer mis 12**

Carwn atgoffa cyflogwyr nad yw'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno, sef 19 Mai, yn dilyn diwedd y flwyddyn dreth yn gymwys ar gyfer y flwyddyn dreth 2014-15 ymlaen. Yn hytrach, dylai cyflogwyr barhau i hysbysu ynghylch eu TWE ar gyfer mis 12 yn yr un modd ag y byddent yn gwneud am weddill y flwyddyn dreth.

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

# A ydych yn talu CThEM yn gywir ac mewn pryd?

Mae'r rhan fwyaf o gyflogwyr yn talu CThEM yn llawn ar neu cyn y ddyddiad pan fod eu taliad TWE yn ddyledus. Dylid derbyn taliadau drwy'r post erbyn y 19eg, a dylai taliadau electronig fod wedi clirio yng nghyfrif banc CThEM erbyn yr 22ain o'r mis yn dilyn diwedd y mis treth, chwarter treth neu'r cyfnod blynyddol y mae'n berthnasol iddo.

Drwy dalu mewn pryd, maent yn osgoi llog am dalu'n hwyr, a chosbau am dalu'n hwyr. Serch hynny, heb sylweddoli, mae nifer fechan o gyflogwyr yn gwneud camgymeriadau gyda'u taliadau electronig a gall y rhain arwain at oedi, ac mewn rhai achosion, codi llog a chosbau. Dyma sut allwch atal hyn rhag digwydd:

- defnyddio'r cyfeirnod taliad cywir. Os ydych yn talu mewn pryd, y cyfan sydd ei angen arnoch yw eich Cyfeirnod Swyddfa Gyfrifon 13 cymeriad, fydd yn edrych yn debyg i'r enghraifft hon: 123PA00012345. Gallwch ddod o hyd iddo ar y llythyr cofrestru ar gyfer cyflogwr newydd gwnaeth CThEM ei anfon atoch wrth gofrestru, ar flaen y llyfryn slip talu os ydych yn dal i dderbyn un, neu ar y llythyr ynghylch 'Talu'n Electronig' a anfonwyd atoch yn lle'r llyfryn.
- Os ydych yn un o'r nifer fechan sy'n talu CThEM yn eithriadol o gynnar neu'n hwyr, ac wrth hynny golygwn mwy na 14 diwrnod yn gynharach na'r dyddiad pan fod eich taliad yn ddyledus neu 14 diwrnod yn hwyrach, bydd angen i chi ychwanegu 4 digid ychwanegol i ddiwedd eich cyfeirnod Swyddfa Gyfrifon sy'n rhoi gwybod i ni pa flwyddyn dreth a mis treth rydych yn talu ar ei gyfer. Heb yr wybodaeth hanfodol hon, gallai eich taliad gael ei ddyrannu i fis treth, neu ar gyfer tâl treth, arall. Bydd arweiniad ar ein tudalennau gwe (gweler y cysylltiadau isod) yn eich helpu i benderfynu pa 4 digid ychwanegol sydd angen i chi eu defnyddio.
- os ydych wedi talu'n flaenorol gan ddefnyddio'r cyfeirnod 17 cymeriad, cofiwch newid y 4 digid y tro nesaf y byddwch yn talu. Fel arall bydd eich taliad yn cael ei ddyrannu i'r un mis â'r tro cynt.
- sicrhau bod eich taliadau'n clirio i mewn i gyfrif banc CThEM ar neu cyn y dyddiad pan fod y taliad yn ddyledus. Mae'n bosib bydd angen i chi wirio gyda'ch banc ynghylch amseru am y gall penwythnosau a Gwyliau'r Banc effeithio ar ambell ddull o dalu.
- talu'r cyfanswm sy'n ddyledus mewn un swm; nid oes angen anfon taliadau ar wahân ar gyfer treth, cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1, cyfraniadau Benthyciadau Myfyrwyr neu CIS.
- Os na allwch dalu, cysylltwch heb oedi. Gwnawn eich helpu pan fyddwn yn gallu gwneud hynny.
- Mae mwy o wybodaeth ynglŷn â thalu CThEM yn www.gov.uk/pay-paye-tax a www.gov.uk/dealing-with-hmrc/paying-hmrc

---

# Lwfans Cyflogaeth Yswiriant Gwladol – a ydych wedi hawlio eich un chi eto?

Gall busnesau ac elusennau cymwys ostwng eu bil cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) Dosbarth 1 y Cyflogwr gan hyd at £2,000 bob blwyddyn gan hawlio'r Lwfans Cyflogaeth. Bu dros 850,000 o fusnesau ac elusennau ar draws y DU ar eu hennill o ganlyniad i'r Lwfans Cyflogaeth ers iddo ddod i rym ym mis Ebrill eleni. Mae bron â bod pob cyflogwr sy'n talu CYG Dosbarth 1 yn gymwys ar gyfer derbyn y Lwfans Cyflogaeth.

**Mae'r Lwfans Cyflogaeth nid yn unig yn gostwng eich bil CYG y Cyflogwr gan hyd at £2,000 am un flwyddyn, mae hefyd yn gymwys am flynyddoedd yn y dyfodol, sy'n ei wneud hyd yn oed yn bwysicach i hawlio.**

Unwaith eich bod wedi hawlio eich Lwfans Cyflogaeth ar gyfer y flwyddyn dreth a ddaw i ben ar 5 Ebrill 2015, mae'n gymwys yn awtomatig ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol, heblaw eich bod yn rhoi gwybod fel arall i CThEM.

**Os nad ydych eisoes wedi hawlio eich lwfans cyflogaeth, mae'n dal i fod amser i wneud hynny.**

Mae hawlio'r Lwfans Cyflogaeth yn broses uniongyrchol. Y cyfan sy'n rhaid i chi wneud yw gwirio a ydych yn gymwys cyn hawlio drwy gyfrwng eich cyflogres. Mae'n debygol mai ticio blwch fydd hyn, neu rywbeth tebyg, gan ddibynnu ar eich meddalwedd cyflogres.

Wedi ei archifo – peidiwch â'i ddefnyddio

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

# Lwfansau trosglwyddadwy ar gyfer cyplau priod a phartneriaid sifil

Yn Natganiad yr Hydref 2013, cyhoeddodd y Canghellor, o'r flwyddyn dreth sy'n dechrau ar 6 Ebrill 2015, pan nad yw'r naill briod na'r llall yn agored i dreth incwm uwchlaw'r gyfradd sylfaenol, gall unigolion drosglwyddo rhan o'u lwfansau personol sy'n rhydd o dreth i'w priod neu bartner sifil. Bydd £1,060 yn drosglwyddadwy ar gyfer y flwyddyn dreth 2015 i 2016, sy'n cynrychioli arbediad o hyd at £212 y flwyddyn ar gyfer cyplau cymwys.

Bydd y broses yn un ddigidol ar gyfer y rhan fwyaf o gwsmeriaid a gellir ei chyrchu drwy GOV.UK. Bydd y cyfleuster ar-lein yn gofyn i gwsmeriaid i ddefnyddio gwasanaeth "Verify" GOV.UK yn gyntaf er mwyn gwireddu eu dilysrwydd. Mae CThEM yn cydnabod ei bod yn bosib y bydd angen cymorth ar rai cwsmeriaid i wneud cais ar gyfer trosglwyddo'r lwfans, a bydd yn darparu cymorth ar-lein.

Unwaith bod y cais wedi ei wneud, gostyngir lwfans personol rhydd o dreth y trosglwyddydd, gan £1,060. Cynyddir lwfans personol rhydd o dreth y priod neu'r partner sifil sy'n derbyn y swm a drosglwyddir, gan £1,060.

Caiff dau ôl-ddodiad cod treth newydd eu cyflwyno (ôl-ddodiad 'N' ar gyfer y 'trosglwyddydd' ac ôl-ddodiad 'M' ar gyfer y 'derbynydd') er mwyn hwyluso'r lwfans trosglwyddadwy ar gyfer y cwsmeriaid TWE hynny sydd â chod ôl-ddodiad 'L' ar hyn o bryd. Caiff yr ôl-ddodiaid cod newydd, 'M' ac 'N,' eu gweithredu'n union yr un modd â'r codau ôl-ddodiad presennol, 'L,' 'P,' 'T' ac 'Y.'

Ni chaiff yr ôl-ddodiaid treth newydd hyn eu defnyddio ar godau treth cyn mis Ebrill 2015 ac felly ni chânt eu defnyddio ar y P9 ar gyfer codau treth 2015 i 2016 a anfonir ym misoedd Ionawr, Chwefror a Mawrth 2015.

# Newidiadau i god treth cyflogai - cynyddu'r uchafswm y gellir ei adennill

Mae CThEM yn cynyddu'r uchafswm y gellir ei adennill drwy gyfrwng cod treth TWE cyflogeion bob blwyddyn. Mae CThEM yn cyfeirio at hyn fel 'casglu drwy'r cod'.

Caiff hyn ei wneud drwy gyflwyno graddfa yn seiliedig ar incwm a fydd yn berthnasol os oes gan gyflogai brif ffynhonnell incwm TWE o £30,000 neu'n fwy. Ni fydd unrhyw newid i'r terfyn o £3,000 ar gyfer enillion sy'n llai na £30,000.

Os oes newidiadau'n cael eu gwneud i god treth eich cyflogeion, caiff esboniad ynghylch yr addasiadau hynny ei gynnwys yn eu Hysbysiad Cod Blynyddol (P2). Bydd didyniadau treth o gyflog eich cyflogeion gan ddefnyddio'r cod treth ar gyfer 2015 i 2016 yn dechrau o 6 Ebrill 2015.

I sicrhau dull cyson o weithredu, ac i ddiogelu cyflogeion rhag didyniadau gormodol o'u cyflog, mae CThEM yn ymestyn y 'terfyn gor-redol 50 y cant' i gynnwys pob cod treth, ac nid codau K yn unig. Mae hyn yn gosod terfyn ar unrhyw ddidyniadau i uchafswm o 50 y cant o gyflog perthnasol cyflogai.

Mae rhagor o wybodaeth ynghylch codau treth cyflogeion yn ein harweiniad, *understanding your employee's tax codes*.

### Sut all cyflogwyr helpu?

Er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth eich cyflogeion ynglŷn â'r modd y gallant osgoi didyniadau o'u cod treth, dylech eu cyfeirio i'r arweiniad ynglŷn â chodau treth.

### Beth sy'n rhaid i gyflogwyr ei wneud nawr?

Mae angen i chi sicrhau fod eich meddalwedd cyflogres wedi ei diweddaru er mwyn cynnal y cyfyngiad gor-redol o 50 y cant ar gyfer bob cod treth, o 6 Ebrill 2015.

# Dod â Chontractio Allan i ben

### Diddymu'r Rhif Contractio Allan y Cyflogwr (SCON) Dros Dro

Yn rhifyn mis Chwefror o Fwletin y Cyflogwr, gwnaethom ddweud wrthych, o 6 Ebrill 2014 ymlaen, ei bod yn ofynnol yn ôl y gyfraith ar gyflogwyr i ddangos y SCON perthnasol, yn ychwanegol at Rif Contractio Allan y Cyflogwr (ECON), ar eu Cyflwyniadau Taliadau Lawn (FPS) wrth anfon cyfraniadau Yswiriant Gwladol wedi'u contractio allan ar gyfer cyflogeion a fu'n rhan o gynllun pensiwn wedi'i gontractio allan yn ystod y flwyddyn dreth.

Gwnaethom hefyd gynghori y byddem, dros dro, yn defnyddio'r neges wall awtomatig ynghylch methiant i ddarparu SCON ffug dilys dros dro er mwyn galluogi ail-gyflwyno'r FPS ar unwaith, pan oedd cyflogwr yn wirioneddol methu â chaffael y SCON cywir ar gyfer un neu'n fwy o'i gyflogeion, cyn mis Ebrill 2014.

**Ni fydd** y SCON Dros Dro ar **gael i'w ddefnyddio o fis Ebrill 2015 ymlaen**. Mae'n hanfodol eich bod yn dechrau cofnodi'r SCON cywir sy'n cyfeirio at y cynllun mae'r unigolyn yn rhan ohono ar hyn o bryd. Mae hwn i'w weld ar eich tystysgrif Contractio Allan neu drwy gysylltu â gweinyddwr eich Cynllun Pensiwn.

Os na fyddwch wedi dechrau defnyddio'r SCON cywir erbyn 15 Rhagfyr 2015, byddwch yn derbyn neges GNS fel nodyn atgoffa pellach fod yn rhaid i chi weithredu er mwyn dechrau cofnodi'r SCON cywir. Byddwch hefyd yn derbyn y neges GNS bob tro rydych yn gwneud cyflwyniad dilynol gan ddefnyddio'r SCON dros dro.

Os nad oes gennych gynllun pensiwn wedi'i gontractio allan, dylech adael y maes SCON yn wag. Os cewch eich annog i roi SCON, dylech sicrhau eich bod yn defnyddio'r llythyren gategori cyfraniadau Yswiriant Gwladol gywir ar gyfer eich cyflogai.

### Gwasanaeth Cysoni'r Cynllun

Cafodd y Gwasanaeth Cysoni'r Cynllun ei lansio ym mis Ebrill eleni er mwyn helpu ymddiriedolwyr a gweinyddwyr cynlluniau pensiwn Budd-dal Diffiniedig (ar sail cyflog) i gysoni eu cofnodion ar gyfer pob aelod anweithredol yn erbyn yr wybodaeth sydd gan CThEM. Cysylltwch â gweinyddwr eich cynllun er mwyn sicrhau bod cofnodion eich cynllun yn fanwl gywir, ac anogwch hwy i gofrestru ar gyfer y gwasanaeth hwn cyn gynted â phosib.

### Diddymu'r Pwynt Croniad Uchaf a newid mewn bandiau cyflog o fis Ebrill 2016

O fis Ebrill 2016, bydd cyflogwyr a chyflogeion a oedd wedi eu contractio allan o Gynllun Pensiwn y Wladwriaeth ar sail Enillion, yn talu'r gyfradd sylfaenol o Yswiriant Gwladol yn hytrach na'r gyfradd is, wedi'i chontractio allan, o CYG. O ganlyniad, o fis Ebrill 2016 ymlaen, ni fydd yn rhaid i gyflogwyr mwyach i hysbysu ynghylch enillion rhwng y Prif Drothwy a'r Pwynt Croniad Uchaf.

### 'Countdown Bulletin'

Yn rhifyn mis Hydref o Fwletin y Cyflogwr, gwnaethom ddweud wrthych am fwletin chwarterol o'r enw *Countdown Bulletin ending contracting-out*. Mae hwn wedi'i anelu'n bennaf at Weinyddwyr Cynllun Pensiwn ond mae'n bosib bydd yr wybodaeth yn ddefnyddiol i chi.

---

# Cyflogi rhywun newydd?

### Sut i gyfrifo codau treth eich cyflogeion newydd

Mae angen i chi gyfrifo pa god treth a datganiad cyflogai newydd sy'n cychwyn i'w ddefnyddio yn eich meddalwedd cyflogres pan fyddwch yn cyflogi rhywun newydd. Gall codau treth anghywir arwain at eich cyflogeion yn talu mwy o dreth nad sy'n ddyledus, felly mae CThEM wedi datblygu twlsyn ar-lein newydd er mwyn eich helpu chi neu eich darparwr cyflogres i gael cod treth eich cyflogeion yn iawn y tro cyntaf.

Bydd angen i chi gael gwybodaeth benodol gen eich cyflogeion er mwyn i chi fedru sefydlu'r cod treth cywir a datganiad cyflogai newydd sy'n cychwyn ar eu cyfer, ar eich meddalwedd cyflogres. Fel arfer, mae'r wybodaeth hon ar ffurflen P45 cyflogeion newydd felly cofiwch ofyn iddynt ddod â hon gyda nhw ar eu diwrnod gwaith cyntaf.

### Beth os nad oes ffurflen P45 gan eich cyflogeion?

Nid yw'r ffurflen P46 yn cael ei defnyddio mwyach, felly bydd angen i chi ofyn i'ch cyflogeion am yr wybodaeth hon ar unwaith. Gallwch gasglu'r wybodaeth hon gan ofyn i'ch cyflogai newydd i gwblhau rhestr wirio ar gyfer cyflogai newydd sy'n cychwyn. Bydd hon yn eich darparu â'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch er mwyn gweithredu'r cod treth cywir ar gyfer eich cyflogeion newydd ac osgoi addasiadau i'r gyflogres yn nes ymlaen.

Unwaith eich bod wedi casglu gwybodaeth gan eich cyflogeion, gallwch gyfrifo eu cod treth a'u datganiadau cyflogai newydd sy'n cychwyn gan ddefnyddio'r twlsyn ar-lein newydd.

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

# Cofrestru awtomatig: Galw ar gyflogwyr i weithredu nawr

**Dylech wybod pryd i fod yn barod**

Gwnaeth ymchwil ddiweddar gan y Rheolydd Pensiynau ddangos amrywiad eang yn yr ymwybyddiaeth o ddyddiadau cychwyn - hynny yw, y dyddiad pan fod angen i gyflogwyr fod yn barod i fodloni eu dyletswyddau cofrestru awtomatig. Dangosodd yr ymchwil mai dim ond 43% o'r rheiny sy'n cychwyn rhwng mis Mehefin a mis Tachwedd 2015, a 28% o'r rheiny sy'n dechrau rhwng mis Ionawr a mis Tachwedd 2016, oedd yn cynllunio ar gyfer y dyddiad cywir.

Mae'n rhaid i gyflogwyr ganfod y dyddiad allweddol hwn, fel eu bod yn gadael amser digonol ar gyfer cydymffurfio â'u dyletswyddau cofrestru awtomatig. Mae gan y rheolydd [dwlsyn dyddiad cychwyn] y gall cyflogwyr ei ddefnyddio er mwyn canfod beth yw eu dyddiad cychwyn. Dim ond eu cyfeirnod(au) TWE sydd eu hangen arnynt.

Unwaith bod cyflogwyr yn gwybod beth yw eu dyddiad cychwyn mae'n rhaid iddynt sicrhau eu bod yn gwybod beth sydd sydd angen ei wneud, ac erbyn pryd, er mwyn cydymffurfio â'u cyfrifoldebau ac osgoi cosbau ariannol. [Mae twlsyn ar gyfer cynllunio] ar gael sy'n caniatáu i gyflogwyr fwrw golwg ar amserlen ynghylch yr hyn ddylid ei wneud, ac erbyn pryd.

**Sut a phryd i ddatgan cydymffurfiad**

Mae'n rhaid i bob cyflogwr gwblhau eu datganiad o gydymffurfiad o fewn pum mis ar ôl eu dyddiad cychwyn. Darpariaeth orfodol o wybodaeth i'r Rheolydd Pensiynau yw hwn er mwyn cadarnhau eu bod wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau cofrestru awtomatig.

Cwblhaodd miloedd o gyflogwyr o faint canolig (â 62-89 o weithwyr) y gwnaethant gychwyn ym mis Gorffennaf 2014, eu datganiad o gydymffurfiad (cofrestriad) gyda'r rheolydd erbyn diwedd mis Tachwedd. Mae angen i gyflogwyr sicrhau nad ydynt yn mentro derbyn dirwy drwy sicrhau eu bod wedi bodloni eu dyletswyddau a bod eu datganiad o gydymffurfiad wedi ei gwblhau o fewn pryd ac yn fanwl gywir.

Mae copi PDF o'r [rhestr wirio datganiad o gydymffurfiad] ar gael i'w lawrlwytho. Gall cyflogwyr ymrestru ar gyfer derbyn [newyddion drwy e-bost] er mwyn cael newyddion neu wybodaeth i'r funud fydd yn eu helpu i baratoi.

Mae mwy o wybodaeth yn [www.tpr.gov.uk].

# Offer TWE Sylfaenol

Mae Offer TWE Sylfaenol (BPT) wedi ei brofi'n benodol ar Windows XP, Windows 7 a Windows 8.

Ni chafodd ei brofi ar fersiynau newydd o Windows neu ar Windows Vista. Mae lawrlwytho BPT i unrhyw blatfform Windows sydd heb ei brofi'n unigol yn weithred ar fenter y defnyddiwr ei hun.

Os nad yw'r broses o lawrlwytho'n gweithio ni all desgiau cymorth CThEM fod o gymorth.

Ar hyn o bryd, ni fydd BPT yn cynnal Cofrestru Awtomatig yn llawn ond rydym yn gweithio'n agos â'r Rheolydd Pensiynau er mwyn pennu'r dull gorau o gefnogi defnyddwyr BPT wrth iddynt baratoi ar gyfer Cofrestru Awtomatig.

Ceir gwybodaeth bellach mewn rhifynnau Bwletin y Cyflogwr yn y dyfodol, gan y Rheolydd Pensiynau yn ogystal â CThEM.

# A fu unrhyw newid i amgylchiadau eich cynllun TWE?

Dylid hysbysu CThEM ynghylch newid i amgylchiadau cynlluniau TWE er mwyn i ni fedru cadw eich cofnodion i'r funud. Mae arweiniad ynghylch sut i hysbysu CThEM ynghylch newid i'ch busnes megis enw, cyfeiriad, strwythur cyfreithiol, i'w gael yma yn *Tell HMRC about a change to your business - GOV.UK*

Os ydych wedi penodi neu newid asiant i ddelio gyda'ch treth, gofynwch iddo/iddi ddefnyddio [gwasanaeth awdurdodi ar-lein CThEM] neu i gwblhau [ffurflen 64-8] a'i hanfon i CThEM.

Gallwch benodi asiant TAW gan ddefnyddio [gwasanaethau TAW ar-lein].

Dylai asiantau hysbysu ynghylch newidiadau i'w hamgylchiadau eu hunain, megis newid cyfeiriad drwy ffonio'r Ganolfan Gyswllt Cymraeg ar 0300 200 1900 (08:30 – 17:00, Dydd Llun – Dydd Gwener) neu drwy ysgrifennu i CThEM.

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

# Gwelliannau i wasanaeth CThEM ar gyfer cwsmeriaid mewn profedigaeth

Ym mis Hydref 2014, gwnaeth CThEM lansio gwasanaeth symlach a chyflymach ar gyfer cwsmeriaid mewn profedigaeth.

Mae un o'r prif newidiadau rydym wedi gallu eu gwneud yn perthyn i ffurflen R27 'Adennill treth neu dalu treth pan fydd rhywun yn marw'. Nid oedd CThEM yn gallu prosesu oddeutu 50% o ffurflenni ar ôl eu derbyn am y tro cyntaf a bu'n rhaid eu dychwelyd i'r cwsmeriaid. Roedd yn amlwg bod y broses yn gosod baich drwm ar Gynrychiolwyr Personol ac adnoddau CThEM, fel ei gilydd. O'r galwadau a dderbyniwyd ynghylch profedigaeth:

- roedd 34% ohonynt yn ymwneud â llenwi'r ffurflen
- roedd 15% yn gwirio'r cynnydd wrth brosesu'r ffurflen.

I wneud pethau'n haws, rydym wedi gallu cwtogi ar faint o wybodaeth sydd ei hangen arnom drwy wneud gwell defnydd o'r data sydd eisoes gennym. Gan fod cyflwyno gwybodaeth TWE mewn amser real bellach yn rhoi'r holl wybodaeth ynghylch cyflog a threthi sydd ei hangen arnom ynghylch cwsmeriaid mewn profedigaeth, rydym wedi dweud nad oes angen cwblhau ffurflen R27 pan fod rhywun yn marw.

Mae hyn bellach yn golygu, ar gyfer cwsmeriaid TWE, bod yna broses awtomataidd sy'n syml ar gyfer cwsmeriaid ac yn fwy effeithlon ar gyfer CThEM. Ar gyfer cwsmeriaid Hunanasesiad, mae yna wasanaeth wedi'i deilwra sy'n cynnwys llythyron sy'n addas at amgylchiadau'r unigolyn.

Mae dweud nad oes angen cwblhau'r ffurflen hon yn golygu y rhoddir trefn ar faterion treth cwsmeriaid yn gyflymach, ac yn golygu na fydd angen cymaint o gysylltu eto â CThEM. Yn ogystal, mae'n rhoi mwy o hyblygrwydd i CThEM symud staff rhwng meysydd eraill o waith â blaenoriaeth uchel.

Mae'r gwasanaeth newydd yn dibynnu'n gryf ar yr wybodaeth rydych chi fel cyflogwr yn ei chyflwyno ar eich datganiadau. Gadewch i ni wybod pan fydd un o'ch cyflogeion neu dderbynyddion pensiwn yn marw drwy anfon gwybodaeth ynghylch taliad terfynol cyn gynted â phosibl, a bod y manylion ynghylch y cyflog a'r dreth yn cynnwys popeth hyd at ddyddiad y farwolaeth.

# Anrhegion Nadolig i Gyflogeion

Yr adeg hon o'r flwyddyn, gall fod yn draddodiadol i ystyried rhoi anrheg Nadolig neu dymhorol i'ch cyflogeion. Hoffwn eich atgoffa ynglŷn â'ch rhwymedigaethau fel cyflogwr.

Os ydych yn rhoi anrheg Nadolig wedi ei thalu ar ffurf arian parod, bydd bob amser yn drethadwy, yn yr un modd ag enillion eraill. Mae'r un peth yn wir ar gyfer talebau y gellir eu gwario mewn naill ai un siop neu nifer o siopau gwahanol o ddewis y cyflogai. Mae'r cyflogai'n agored i dalu treth ar werth llawn y daleb.

Pe rhoddir anrheg dymhorol i gyflogeion, megis twrci neu botel 'gyffredin' o win neu focs o siocledi, ni fyddwn yn ei threthu cyn belled â bod yn gost yn un resymol. Mae mwy o wybodaeth yn ein harweiniad ynghylch buddiannau pitw.

Os yw'r anrheg yn sylweddol, dylid naill ai ei nodi ar ffurflen P11D er mwyn i'r cyflogai dalu treth arni, neu gallwch fynd i Gytundeb Setliad TWE a thalu'r dreth ar ran y cyflogai.

Mae mwy o wybodaeth yn ein harweiniad ynghylch Cytundebau Setliad TWE.

# Pensiwn newydd y Wladwriaeth

Daw'r broses o gontractio allan Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth i ben wrth gyflwyno Pensiwn newydd y Wladwriaeth o 6 Ebrill 2016 ymlaen. Ar y cyd â rhanddeiliaid y diwydiant pensiynau, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi datblygu nifer o gynhyrchion sy'n esbonio'r newidiadau hyn a beth fyddant yn eu golygu ar gyfer cyflogwyr, cyflogeion ac ymddiriedolwyr.

I weld a yw'r newidiadau hyn yn effeithio arnoch chi, darllenwch fwy yn GOV. UK.

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

# Rheolau newydd a gofynion newydd ynghylch hysbysu os ydych yn cyflenwi unigolion i ddarparu eu gwasanaethau i rywun arall

Os ydych yn cyflenwi unigolion i ddarparu eu gwasanaethau i rywun arall yna gellir ystyried eich bod yn gyfryngwr cyflogaeth a gallech gael eich effeithio gan y 'Ddeddfwriaeth Asiantaeth' Treth Incwm/CYG newydd.

Mae'r llywodraeth wedi newid y rheolau sy'n pennu pa bryd y mae'n rhaid i gyfryngwyr cyflogaeth drin gweithwyr fel eu cyflogeion at ddibenion Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol. O 6 Ebrill 2014 ymlaen, os ydych yn cyflenwi unigolion i ddarparu eu gwasanaethau i rywun arall, mae'n rhaid eich bod yn gallu esbonio i CThEM, pe gofynnir i chi, pam na chafodd y gweithiwr ei drin fel cyflogai. Bydd rhaid i chi gyflwyno tystiolaeth briodol i gefnogi hyn a dylech weithio gyda'ch cleient a'ch gweithiwr er mwyn casglu'r wybodaeth berthnasol sy'n cyfleu hyn.

O fis Ebrill 2015 ymlaen, bydd Rheoliadau pellach yn ei gwneud yn ofynnol ar unrhyw gyfryngwr cyflogaeth sy'n cyflenwi gweithwyr heb weithredu TWE/CYG fel cyflogwr y gweithiwr, i gyflwyno datganiadau chwarterol. Bydd yn rhaid i chi anfon adroddiadau i CThEM sy'n cynnwys manylion ynghylch pob gweithiwr a'u taliadau pan na wnaethoch chi, neu eich gweithredwr cyflogres, weithredu TWE. Daw'r datganiadau newydd i rym o 6 Ebrill 2015 ar gyfer pob chwarter a ddaw i ben – 6 Gorffennaf, 6 Hydref, 6 Ionawr, 6 Ebrill.

Gall y newidiadau effeithio ar gyfryngwyr alltraeth ac artraeth, fel ei gilydd.

# Gwasanaeth ar-lein Gwarantau Ar Sail Cyflogaeth (ERS)

Os ydych yn rhoi cyfranddaliadau neu warantau ar sail cyflogaeth (ERS) i'ch cyflogeion yna mae'n rhaid i chi gofrestru eich cynllun cyfranddaliadau cyflogeion neu'ch trefniant ar y gwasanaeth ERS ar-lein. Os nad ydych yn gwybod beth sydd angen i chi ei wneud, gallwch ddarllen mwy ar GOV.UK.

Caiff y gwasanaeth ERS ei gyrchu drwy gyfrwng y gwasanaeth TWE i gyflogwyr, felly os nad ydych eisoes yn gallu ei gyrchu, mae'n rhaid i chi ymrestru a chael eich manylion adnabod fel defnyddiwr y gwasanaeth. Gall gymryd hyd at ddwy wythnos.

Gall hefyd gymryd hyd at ddwy wythnos i ddyrannu eich cyfeirnod unigryw y cynllun, unwaith eich bod wedi cofrestru cynllun. Mae'n rhaid i hyn ddigwydd cyn y gallwch gyflwyno datganiad felly peidiwch â'i gadael tan y funud olaf cyn cofrestru eich cynlluniau. Codir cosbau os byddwch yn methu â chyflwyno eich datganiad erbyn y dyddiad cau, sef 6 Gorffennaf 2015. Byddwch felly'n agored i gosb o £100 am bob cynllun rydych wedi ei gofrestru, a heb gyflwyno datganiad ar ei gyfer, erbyn 6 Gorffennaf. Gallech fod yn agored i ordal diffyg talu. Codir cosbau pellach os yw'r methiant i gyflwyno datganiad yn parhau am dri mis neu'n hirach.

Mae'r templedi datganiadau blynyddol ar gyfer cynlluniau cyfranddaliadau cyflogeion hefyd ar gael ar GOV.UK. Gallwch fwrw golwg nawr ar yr wybodaeth fydd angen i chi ei darparu ar gyfer eich cynllun. Cofiwch hefyd – os na fyddwch wedi cofrestru eich cynllun ymlaen llaw, ni fyddwch yn gallu cyflwyno eich datganiad blynyddol statudol ar-lein.

# Absenoldeb a Thâl Rhieni Ar y Cyd

## Beth yw Absenoldeb a Thâl Rhieni Ar y Cyd?

Daeth deddfwriaeth newydd i rym ar 1 Rhagfyr 2014 ynghylch yr hawliau i dâl ac absenoldeb statudol sydd ar gael ar gyfer rhieni cyflogedig. Ar gyfer babanod y disgwylir iddynt gael eu geni a phlant sy'n cael eu paru neu eu lleoli ar gyfer eu mabwysiadu ar neu ar ôl 5 Ebrill 2015, bydd hawl newydd sef Absenoldeb a Thâl Rhieni Ar y Cyd (ShPP/SPL) yn disodli Tâl ac Absenoldeb Tadolaeth Ychwanegol. (ASPP/APL). Bydd rhieni babanod y disgwylir iddynt gael eu geni neu blant sy'n cael eu paru ar gyfer eu mabwysiadu ar neu cyn 4 Ebrill 2015 yn parhau i fod yn gymwys ar gyfer derbyn ASPP ac APL.

Mae cyflwyno Absenoldeb Rhieni Ar y Cyd yn golygu bydd gan rieni fwy o ddewis o ran y modd y maent yn rhannu gofalu am eu plentyn ac absenoldeb o'r gwaith yn ystod blwyddyn gyntaf bywyd eu plentyn. O dan y rheolau newydd, bydd mamau'n dal i gymryd o leiaf pythefnos o absenoldeb mamolaeth yn syth ar ôl yr enedigaeth, ond yn dilyn hynny gall cyplau sy'n gweithio rannu hyd at 50 wythnos o absenoldeb a hyd at 37 wythnos o gyflog.

Mae pob teulu'n unigryw ac mae'r rheoliadau newydd ynghylch Absenoldeb Rhieni Ar y Cyd yn cynnig hyblygrwydd a dewis gwirioneddol i rieni. Gall rhieni a mabwysiadwyr ddewis pa bryd maent yn dychwelyd i'r gwaith, a gall tadau a phartneriaid dreulio mwy o amser yn agosáu at eu plant yn ystod cyfnodau cynnar gwerthfawr eu datblygiad.

Nid yw'r hawl cyfredol i 52 wythnos o absenoldeb mamolaeth/mabwysiadu statudol, gyda 39 wythnos wedi'u talu, na phythefnos o absenoldeb tadolaeth statudol, wedi newid. Fodd bynnag, bydd chwe wythnos gyntaf Tâl Mabwysiadu Statudol yn cynyddu i 90% o enillion wythnosol cyfartalog er mwyn iddo fod yn unol â Thâl Mamolaeth Statudol.

## Sut mae'n gweithio?

Mae'n bosib bydd y rheiny sy'n gweithio ac yn rhieni i faban y disgwylir iddo gael ei eni, neu i blentyn sy'n cael ei leoli ar gyfer ei fabwysiadu, ar neu ar ôl 5 Ebrill 2015 yn gymwys ar gyfer SPL ac ShPP. Mae arweiniad ynghylch cymhwyster a hawl ar gyfer cyflogwyr wedi ei gyhoeddi ar GOV.UK. O dan SPL a ShPP, gall mamau/mabwysiadwyr ddewis dod â'u habsenoldeb a thâl mamolaeth/mabwysiadu i ben yn gynnar (ar unrhyw adeg yn dilyn 2 pythefnos ar ôl yr enedigaeth/y gosod), a rhannu'r tâl a'r absenoldeb nad ydynt wedi eu cymryd gyda'u partneriaid.

Gall rhieni gymryd eu habsenoldebau ar yr un pryd er mwyn iddynt allu treulio amser gartref â'i gilydd gyda'u plentyn, neu gallent ddewis cymryd absenoldebau fesul cyfnodau, er enghraifft 20 wythnos ar gyfer y fam/mabwysiadwr, wedi ei ddilyn gan 20 wythnos ar gyfer y tad/partner, wedi'i ddilyn gan 10 wythnos ar gyfer y fam/mabwysiadwr. Mae'n bosib felly y bydd tâl rhieni statudol yn cael ei dalu dros un neu ddau gyfnod toredig. Mae'n rhaid i rieni hysbysu eu cyflogwyr ynghylch eu cynlluniau i gymryd SPL wyth wythnos cyn iddynt ddod yn gymwys i'w dderbyn, ac mae'n rhaid cymryd pob absenoldeb a thâl wedi'i rhannu rhwng yr enedigaeth a phen-blwydd cyntaf y plentyn, neu o fewn un flwyddyn o fabwysiadu.

## Beth sy'n rhaid i gyflogwyr ei wneud?

Disgwylir bydd yr hysbysiadau cyntaf ynghylch bwriad i gymryd SPL yn cyrraedd cyflogwyr o fis Chwefror 2015 ymlaen.

Rydym yn rhagweld y bydd angen i gyflogwyr ddiweddaru systemau cyflogres, pan fod hynny'n berthnasol, i gynnwys darparu ShPP i gyflogeion sy'n cymryd SPL, ac i alluogi'r taliadau hyn i gael eu gwneud yn doredig pan fod hynny'n angenrheidiol.

Mae'r Llywodraeth wedi darparu gwybodaeth ac offer ar-lein er meyn gwirio dilysrwydd ac mae wedi cyhoeddi arweiniad manwl am y rheolau ynghylch SPL a ShPP. Rhan allweddol o SPL yw'r drafodaeth rhwng y cyflogwr a'r cyflogai er mwyn cytuno ynghylch cyfnodau'r SPL a dychwelyd i'r gwaith ac mae ACAS wedi cyhoeddi arweiniad ar eu gwefan i gefnogi'r broses hon.

## Genedigaethau cynnar

Mae hawliau i Absenoldeb a Thâl Rhieni ar y Cyd ar gael i rieni cymwys babanod y disgwylir iddynt gael eu geni ar neu ar ôl 05 Ebrill 2015. Os yw'r baban yn cael ei eni'n gynnar, bydd rhieni'n dal i fod yn gymwys ar gyfer Absenoldeb a Thâl Rhieni Ar y Cyd, cyn belled ag y bu disgwyl i'r baban gael ei eni ar neu ar ôl 5 Ebrill 2015.

Mae deddfwriaeth a gynlluniwyd er mwyn caniatáu i hawliau tebyg ar gyfer rhieni sy'n gweithio gael eu cyflwyno yng Ngogledd Iwerddon yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

Golyga hyn y bydd cyflogeion yng Ngogledd Iwerddon yn gallu parhau i wneud cais am Dâl ac Absenoldeb Tadolaeth Statudol Ychwanegol.

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

# Faniau ag allyriadau sero - Nodyn atgoffa

Yn rhifyn mis Hydref o'r Bwletin gwnaethom ofyn i chi anfon gwybodaeth benodol atom os oes gennych gyflogeion sy'n gyrru faniau cwmni ag allyriadau sero ac sydd yn gallu cyrchu'r cerbydau hynny at ddefnydd preifat. Y dyddiad cau gwreiddiol ar gyfer anfon yr wybodaeth hon oedd 12 Rhagfyr, ond rydym bellach wedi ei ymestyn i **5 Ebrill 2015**. Sylwer y bydd darparu'r wybodaeth hon cyn gynted â phosib yn gostwng y posibilrwydd y byddwch chi a'ch cyflogeion yn derbyn hysbysiadau cod lluosog.

Mae angen yr wybodaeth hon arnom oherwydd, o 6 Ebrill 2015 ymlaen, bydd tâl buddiant yn gymwys ar gyfer faniau ag allyriadau sero. Mae'r gyfradd hon wedi ei meinhau a bydd yn cynyddu bob blwyddyn hyd at y flwyddyn dreth sy'n dod i ben ar 5 Ebrill 2021, pan fydd yr un peth â'r tâl buddiant faniau llawn, fel a ganlyn:

- 20% o dâl buddiant faniau yn 2015-16
- 40% o dâl buddiant faniau yn 2016-17
- 60% o dâl buddiant faniau yn 2017-18
- 80% o dâl buddiant faniau yn 2018-19
- 90% o dâl buddiant faniau yn 2019-20
- 100% o dâl buddiant faniau yn 2020-21.

## Pa bryd y codir tâl buddiant

Ers 6 Ebrill 2005, nid yw cyflogeion yn talu treth ar ddefnydd preifat o fan cwmni, cyn belled â bod y fan ganddynt yn bennaf ar gyfer teithiau busnes a bod

- eu defnydd preifat o'r fan wedi ei gyfyngu i siwrneiau i'r cartref ac o'r cartref.
- eu defnydd preifat arall o'r fan yn bitw.

Os oes defnydd preifat y tu hwnt i hyn, yna codir tâl buddiant fan.

**Sylwer: At y dibenion hyn, caiff fan ei diffinio fel a ganlyn:**

- Cerbyd â'i luniad yn addas yn y lle cyntaf ar gyfer cludo nwyddau neu faich o unrhyw ddisgrifiad (nid yw hyn yn cynnwys pobl)
- gyda phwysau dylunio (y pwysau nad yw'r cerbyd wedi ei ddylunio neu ei addasu i fod yn fwy nag ef adeg defnydd cyffredin ac wrth deithio, wedi'i lwytho, ar y ffordd) heb fod yn fwy na 3,500 cilogram.

## Camau i'w Cymryd

Mae'n rhaid i ni sicrhau bod gan unrhyw gyflogai sy'n bodloni'r meini prawf y swm cywir o dâl buddiant faniau yn ei god treth. Felly, os oes gennych gyflogeion sy'n gyrru faniau ag allyriadau sero sy'n bod yn gallu cyrchu'r faniau hyn at ddefnydd preifat, **e-bostiwch yr wybodaeth ganlynol atom erbyn 5 Ebrill 2015**.

- Enw a manylion cyswllt (rhif ffôn) y Cyflogwr
- Cyfeirnod TWE y Cyflogwr
- Enw'r cyflogai
- Rhif Yswiriant Gwladol y cyflogai.

Anfonwch yr e-bost i mailbox.zeroemissionvans@hmrc.gsi.gov.uk.

Bydd rhoi'r wybodaeth hon i CThEM yn sicrhau bod eich cyflogeion yn talu'r swm cywir o dreth.

Mae CThEM yn cymryd diogelwch gwybodaeth o ddifri. Gall delio â CThEM drwy e-bost fod yn gyflymach, ond mae'n rhaid i ni eich hysbysu am y peryglon cysylltiedig.

Mae'r prif beryglon o ddefnyddio e-byst sy'n ymwneud â CThEM fel a ganlyn:

- Cyfrinachedd/preifatrwydd - mae peryg i e-bost a anfonir dros y rhyngwyd gael ei ryng-gipio.
- Nid oes sicrwydd bod e-bost a dderbynnir dros rwydwaith anniogel, fel y rhyngrwyd, heb gael ei newid ar y ffordd.

O ganlyniad i'r peryglon hyn, mae'n bosib y byddai'n well gennych anfon manylion ynghylch eich cyflogeion un ar y tro, neu mewn sypiau bach, gan ostwng yr effaith ar eich cyflogeion petai rywbeth yn digwydd.

O ganlyniad i'r peryg posib o dderbyn firysau, ni fyddwn yn agor unrhyw atodiadau. Dylid cynnwys unrhyw fanylion, felly, ym mhrif adran yr e-bost.

Sylwer na fydd CThEM yn cyfathrebu â chi drwy e-bost.

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

# Ceir cwmni

Mae'r nodyn hwn yn egluro'r sefyllfa pan fod cyflogwr wedi mynd i gytundeb prydles neu hur-bwrcas ar gyfer car cwmni a bod y cyfarwyddwr neu'r cyflogai yn gwneud y taliadau misol.

Nid yw'r taliadau a wneir gan y cyfarwyddwr neu'r cyflogai yn daliadau defnydd preifat ac ni ellir eu defnyddio er mwyn gostwng yr hyn sy'n gyfwerth mewn arian â'r buddiant car cwmni. Mae'n bwysig i nodi nad yw'r taliadau hyn yn gyfraniadau cyfalaf hefyd ac nad ydynt yn ddidyniadau a ganiateir wrth gyfrifo'r hyn sy'n gyfwerth mewn arian o fuddiant car cwmni.

Mae'r arweiniad EIM ynglŷn â thaliadau defnydd preifat wedi ei ddiweddaru ac mae'r arweiniad erbyn hyn yn cynnwys rhai enghreifftiau sy'n dangos pa bryd mae didyniadau defnydd preifat ar gael, a pha bryd nad ydynt ar gael.

Mae mwy o wybodaeth ynglŷn â cheir cwmni i'w chael yn: www.gov.uk/tax-company-benefits/tax-on-company-cars.

Mae'n bosib bydd y canlynol yo ddefnydd i chi hefyd:

- Gwybodaeth fanwl ynghylch sut i gyfrifo buddiant car cwmni ar gyfer cyflogeion sy'n defnyddio'r car ar gyfer milltiroedd preifat.
- Gwybodaeth ynghylch pa bryd mae didyniadau ar gael i ostwng y buddiant car trethadwy pan fod car cwmni ar gael at ddefnydd preifat.
- Gwybodaeth ynghylch pa bryd mae didyniadau ar gael ar gyfer gostwng y buddiant car trethadwy pan gaiff taliad ei wneud tuag at y cyfraniadau cyfalaf at ddibenion prynu car cwmni neu ategolyn cymwys.

# IR35 - Profion Endidau Busnes

Yn ddiweddar, mae'r Fforwm IR35 wedi adolygu'r dull newydd o weithredu o ran gweinyddu IR35, a gyflwynwyd yn 2012. Roedd yr adolygiad hwn yn cynnwys y Profion Endidau Busnes (BETs) y gall busnesau eu cymryd er mwyn hunanasesu eu risg mewn perthynas ag IR35.

Canfu'r adolygiad nad oedd y BETs yn helpu cwsmeriaid gan:

- mai prin iawn y maent yn cael eu defnyddio
- nad ydynt yn bodloni'r dibenion y bwriedir iddynt eu gwneud

O ganlyniad, argymhelliad yr adolygiad oedd diddymu'r BETs. Mae CThEM wedi derbyn yr argymhelliad hwn a bydd yn diddymu'r BETs o 6 Ebrill 2015 ymlaen. Tan hynny, gall busnesau barhau i gymryd y BETs, os ydynt yn dymuno gwneud hynny, neu pe gofynnir iddynt wneud hynny fel rhan o broses tendro.

Ceir manylion llawn yn GOV.UK.

### Dyddiad cau ar gyfer taliadau/datganiadau IR35 terfynol – blwyddyn dreth a ddaeth i ben 5 Ebrill 2014

Mae gan gyfryngwyr sydd wedi gweithredu'r consesiwn IR35 er mwyn gohirio cyflwyno datganiad terfynol a gwneud taliad terfynol ar gyfer y flwyddyn dreth a ddaeth i ben 5 Ebrill 2014, hyd at 31 Ionawr 2015 i gyflwyno ffigurau manwl gywir a thalu unrhyw symiau sy'n ddyledus. Mae'r consesiwn hwn ar waith pan fod datganiad a thaliad dros dro wedi eu cyflwyno ond ni ellir eu cadarnhau gan nad oedd y ffigurau terfynol yn hysbys ar ddiwedd y flwyddyn dreth 13/14. Dylid hysbysu ynghylch addasiadau ar Ddiweddariad Blwyddyn Gynharach (EYU) a gyflwynir yn electronig i CThEM rhwng 20 Ebrill 2014 a 31 Ionawr 2015. Codir llog yn y modd arferol hyd at ddyddiad y taliad llawn. Ni fydd CThEM yn anfon llythyron atgoffa.

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

# Gwariant Perthnasol ar Foduro a chyfandaliadau - Diweddariad

Bu CThEM yn delio ag achos pan wnaeth cwmni hawlio y dylai'r cyfandaliadau lwfans car y gwnaeth dalu i'w gyflogeion, a fu'n defnyddio eu ceir preifat at ddefnydd busnes, fod wedi eu derbyn fel taliadau gwariant perthnasol ar foduro (RME) a'u diystyru at ddibenion cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) hyd at y Swm Cymwys (QA). Ym marn CThEM, roedd y taliadau yn enillion at ddibenion CYG ac roeddent yn agored i CYG Dosbarth 1.

Cyflwynodd y cwmni apêl lwyddiannus gerbron y Tribiwnlys Haen Gyntaf (FTT). Gwnaethom herio'r penderfyniad hwn ac aeth yr achos yn ei flaen i'r Llys Apêl (CoA).

Dyfarnodd y COA nad oedd yr FTT wedi methu â mynd i'r afael â'r materion oedd yn berthnasol i gynllun y cwmni yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarparwyd ac na gyflwynwyd dadleuon llawn gan y naill barti na'r llall. Ar sail y ffeithiau a gyflwynwyd, dyfarnodd nad oedd yr FTT wedi amryfuso yn ôl y gyfraith ac nad oedd sail i'r apêl i'r Tribiwnlys Uwch (UT) na'r CoA. Gwnaeth felly adfer y penderfyniad gwreiddiol mai taliadau o RME oedd y taliadau ac nad oeddynt yn agored i CYG Dosbarth 1. Yn ein tyb ni, fodd bynnag, nid oedd hyn yn darparu cynsail sy'n rhwymo.

Gwnaethom gydnabod barn y CoA ac o ganlyniad rydym yn cymryd camau i adnabod achos neu achosion blaen addas i'w dwyn gerbron Tribiwnlys, pan ellir cyflwyno pob dadl yn llawn er mwyn darparu eglurder ar gyfer pob parti.

Yn dilyn penderfyniad y CoA gwnaethom gysylltu â phob cwmni oedd eisoes wedi cyflwyno ceisiadau am ad-daliadau, yn eu hysbysu nad oedd y penderfyniad FTT a adferwyd, yn ein barn ni, yn darparu sail sy'n rhwymo mewn cyfraith, a fyddai'n gymwys ar gyfer ceisiadau eraill. Gwnaethom ddilyn hyn gan ddechrau rhaglen dreigl o ysgrifennu at y cwmnïau o dan sylw yn ail-ddatgan ein barn ynghylch gweithrediad y ddeddfwriaeth. Mae'r llythyr yn sôn mewn manylder pa wybodaeth sydd ei hangen arnom er mwyn gallu rhoi barn ynghylch a yw cynllun penodol yn bodloni'r gofyniad angenrheidiol i'r cyfandaliadau gael eu hystyried fel bod yn daliadau RME. Mae'r rhaglen hon o ysgrifennu at gyflogwyr yn dal i barhau.

Yn ychwanegol, roedd nifer o gwmnïau eisoes wedi darparu CThEM â gwybodaeth fanwl ynghylch gweithrediad eu cynllun ac rydym yn y broses o roi barn ynghylch eu ceisiadau am ad-daliadau neu, mewn ambell achos, wedi gwneud cais am fwy o eglurder neu wybodaeth bellach. Os, yn ein tyb ni, nad yw'r wybodaeth a ddarparwyd ynghylch y cynllun yn bodloni'r gofynion y mae CThEM yn credu sy'n angenrheidiol fel bod y taliad yn cael ei dderbyn fel RME, anfonir penderfyniad ffurfiol at y cwmni yn gwrthod eu cais am ad-daliad. Bydd ganddynt wedyn yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys.

## Gwybodaeth ychwanegol

Os ydych wedi cyflwyno cais am ad-daliad yn flaenorol byddwn yn ysgrifennu atoch yn ystod y misoedd sydd i ddod. Serch hynny, yn y cyfamser, mae'n bosib y dymunwch gasglu gwybodaeth ynghyd ynghylch y modd mae eich cynllun yn gweithredu megis copïau o lawlyfrau staff, cytundebau, pecynnau cyflogwyr etc.

Ni fyddwn yn gosod terfyn amser ar gwmnïau i ymateb i'r cais am wybodaeth ond ni allwn ystyried eich cais tan i ni ei dderbyn. Pe teimlwch y byddai casglu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani'n cymryd yn hirach na 3 mis o pan wnaethoch dderbyn ein cais, dylech gysylltu â ni ar y cyfeiriad a ddangosir ar eich cais, er mwyn cytuno ar amserlen ar gyfer cyflwyno.

Nid ydym yn gwneud ad-daliadau'n awtomatig o ganlyniad i'r penderfyniad a wnaed gan y CoA. Fodd bynnag, pan fod cwmni'n gallu dangos bod ei gynllun yn bodloni'r meini prawf ar gyfer derbyn y cyfandaliadau fel taliadau RME, yna caiff ad-daliad ei wneud. Dyma'r rheswm pam fod arnom angen manylion ynghylch y modd mae eich cynllun yn gweithredu.

Fel ag y nodir uchod, rydym yn edrych am achos arall i brofi'r holl ddadleuon perthnasol gerbron Tribiwnlys ac er mwyn darparu eglurder ar gyfer pob parti. Rydym wedi adnabod nifer o achosion blaen sydd â'r potensial o fod yn addas ond nid yw'r amser ar gyfer dwyn achos gerbron Tribiwnlys yn glir ar hyn o bryd.

Bydd diweddariadau pellach yn ymddangos ym Mwletin y Cyflogwr.

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

# Sut mae Credyd Cynhwysol yn gweithio gyda gweithredu RTI mewn amser real

Erbyn hyn mae Credyd Cynhwysol ar gael mewn dros 80 o Ganolfannau Gwaith ac o 24 Tachwedd 2014 wedi ymestyn i gynnwys ceisiadau gan deuluoedd mewn ambell ardal. Mae rhestr lawn o ganolfannau gwaith y gall pobl hawlio Credyd Cynhwysol ynddynt i'w chael ar GOV.UK.

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) sy'n darparu Credyd Cynhwysol ac yn rhoi gwell cymhellion a chefnogaeth i bobl gael gwaith ac ennill mwy o arian. Mae'n diddymu'r rheolau sy'n gorfodi rhai pobl i gyfyngu eu horiau gwaith o dan 16 awr er mwyn cadw eu Lwfans Ceisio Gwaith, neu i osod isafswm o oriau gwaith er mwyn hawlio budd-daliadau eraill, megis Credydau Treth. Mae cysylltu buddiannau gyda gweithredu TWE mewn amser real hefyd yn gostwng lefelau o dwyll a gwallau yn y systemau presennol.

Ers mis Ebrill 2013 pan gyflwynwyd Credyd Cynhwysol, cafodd RTI ei ddefnyddio ym mron a bod pob asesiad o daliadau Credyd Cynhwysol pan fod y sawl sy'n hawlio yn gweithio. Mae'n helpu i drosglwyddo'r cymorth cywir ar gyfer hawlwyr drwy sicrhau bod taliad Credyd Cynhwysol misol y sawl sy'n hawlio yn adlewyrchu'r enillion a dderbyniwyd ganddynt yng nghyfnod asesu'r mis blaenorol. Os yw eu henillion yn uwch yn y mis blaenorol, felly, maent yn cael llai o Gredyd Cynhwysol, ond os yw'r enillion yn is, cynyddir eu taliad.

### Canlyniadau cadarnhaol

Yr arwyddion cynnar yw bod Credyd Cynhwysol wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer cyflogwyr yn yr ardaloedd hynny lle cafodd ei gyflwyno. Er enghraifft, yn ystod cyfnodau dros y Nadolig yn y gorffennol, bu'n rhaid i asiant mawr o ran trosglwyddo nwyddau wirio enillion ar gyfer cyflogeion a oedd yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith (JSA) ac roedd rhai wedi gwrthod gweithio mwy nag 16 awr, gan beri problemau i'r cyflogwr wrth lenwi swyddi dros dro a thymhorol. Fodd bynnag, o dan Credyd Cynhwysol gall cyflogeion sy'n hawlio Credyd Cynhwysol bellach weithio cynifer o oriau ag y maent yn cytuno yn eu cylch â'u cyflogwr, gan ddarparu gweithlu mwy hyblyg pan fo ei angen. Caiff eu Credyd Cynhwysol eu haddasu yn awtomatig bob mis er mwyn adlewyrchu eu henillion, a'r cyflogwr wedyn yn hysbysu CThEM ynghylch hynny.

Cyn cyflwyno Credyd Cynhwysol, mae'n bosib y bu asiantaeth recriwtio a chyflogwr manwerthu mawr yn gyndyn i gyflogi hawlwyr budd-daliadau oherwydd y rheol 16 awr, yr anhyblygrwydd a berwyd gan hyn, a'r baich o wirio enillion. Mae'r naill gyflogwr a'r llall bellach lawer yn fwy parod i recriwtio hawlwyr Credyd Cynhwysol.

### Monitro Safonau

Cafodd Credyd Cynhwysol ei gynllunio ar gyfer defnyddio'r data RTI yn awtomatig, felly mae'n bwysig bod data RTI yn gywir a chyflawn cyn gynted â phosib, ac yn cael ei gyflwyno ar amser. Mae CThEM a DWP yn monitro'r data a dderbyniwyd, ac wedi datblygu'r cyngor canlynol ynghylch arfer da:

- sicrhau bod pensiynau wedi eu nodi'n gywir ac nid fel enillion
- sicrhau bod enillion wedi eu nodi'n gywir ac nid fel pensiynau
- sicrhau bod y ffigurau ar gyfer y flwyddyn hyd yn hyn yn gywir; a defnyddio'r broses BACS yn briodol. Er nad yw'n ofynnol ar y rhan fwyaf o gyflogwyr,
- mae defnyddio'r broses 'hash' BACS yn arfer da am ei fod yn galluogi i DWP a CThEM wirio TWE yn erbyn data tâl.

Mae gwybodaeth bellach i'w chael yn y 'cwestiynau a ofynnir yn aml i CThEM'

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

# Rhifau ffôn a allai fod o gymorth

## Llinell Gymorth – cyngor teleffon a Llinell Archebu – archebwch eich ffurflenni ac arweiniad (ar gyfer cyflogwyr sydd wedi eu heithrio rhag cyflwyno ar-lein)

**Efallai y caiff galwadau eu monitro at ddibenion hyfforddi a rheoli ansawdd**

**I gael mynediad at ystod eang o wybodaeth cyflogwyr ar amser sy'n gyfleus i chi, ewch i'r tudalennau Cyflogwyr ar ein gwefan yn [www.hmrc.gov.uk/cymraeg/info-employers.htm](www.hmrc.gov.uk/cymraeg/info-employers.htm)**

**Materion cyflogres cyffredinol – er enghraifft TWE, CYG a chredydau treth**

| | | |
|---|---|---|
| Canolfan Gyswllt Cymraeg | **0300 200 1900** | Llun-Gwener 8.30am-5pm<br>Bydd peiriant ateb ar gael y tu allan i'r oriau hyn. |
| Ffacs | **01766 516100** | |
| **Canllawiau** | | |
| Gwefan | www.hmrc.gov.uk/cymraeg/employers/index.htm | |

*Ar gyfer cyflogwyr sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw ac sydd ag offer arbennig fel Minicom, mae'r cyfleuster **Ffôn Testun** ar gael ar **08456 021 380**

**Gwasanaeth Saesneg yn unig a geir ar y rhifau isod**

| | | |
|---|---|---|
| **Cynllun y Diwydiant Adeiladu (CIS)** | | |
| Llinell Gymorth CIS | **08453 667 899** | Llun-Gwener 8am-8pm, Sadwrn 8am-4pm |
| Minicom | **08453 667 894** | |
| **CYG: Pynciau Arbennig** | | |
| Llinell Gymorth a Llinell Archebu Pensiynau wedi'u contractio allan | **08459 150 150** | Llun-Gwener 8am-5pm |
| Llinell Gymorth a Llinell Archebu ar gyfer pobl dibreswyl yn y DU | **08459 154 811** | Llun-Gwener 8am-5pm |
| **Isafswm Cyflog Cenedlaethol (NMW)** | | |
| Llinell Gymorth Cyflog a Hawliau Gwaith | **0800 917 2368** | Llun-Gwener 8am-8pm, Sadwrn 9am-1pm |
| Llinell Archebu | **08458 450 360** | 7 diwrnod yr wythnos 24 awr |
| **Llinellau Cymorth Eraill** | | |
| Desg Gymorth Gwasanaethau Ar-lein CThEM* | *gan gynnwys cefnogaeth dechnegol ynghylch yr Offer TWE Sylfaenol | |
| Llinell Gymorth | **08456 055 999** | Llun-Gwener 8am-8pm, Sadwrn 8am-4pm |
| e-bost | helpdesk@ir-efile.gov.uk | |
| Ymholiadau ynglyˆn â thaliadau TWE/Hunanasesiad | **08453 667 816** | Llun-Gwener 8am-8pm, Sadwrn 8am-4pm |

Os hoffech i CThEM anfon e-bost atoch pan fydd rhifyn newydd o Fwletin y Cyflogwr ar gael, ewch i www.hmrc.gov.uk/cymraeg/paye/forms-publications/register.htm

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio